

Priodas Anrhydeddus yng Ngolwg Duw

PRIODAS—DARPARWYD GAN DDUW AR GYFER CARIAD PARHAOL A HAPUSRWYDD (4 mun.)

Un o ddarpariaethau Jehofah yw priodas er mwyn lles parhaol a hapusrwydd ei blant ar y ddaear (Gen. 1:26)

Roedd angen cymar 'gymwys' ar y dyn perffaith Adda er mwyn cyflawni comisiwn Duw i 'lenwi'r ddaear a'i darostwng' (Gen. 1:28; 2:18)

Daeth Duw â'r cwpl cyntaf ynghyd, a'u priodi nhw (Darllenwch Gen. 2:21, 22.)

Roedd y ddarpariaeth i fod yn uniad parhaol (Darllenwch Gen. 2:24.)

Mae Jehofah yn cael ei ddisgrifio fel "Duw'r cariad" a 'Duw gwynfydedig,' felly mae priodas anrhydeddus yn adlewyrchu'r nodweddion hyn (2 Cor. 13:11; 1 Tim. 1:11)

SUT MEDRWCH CHI WNEUD I BRIODAS BARHAU—MEWN CARIAD A HAPUSRWYDD? (4 mun.)

Er mwyn i briodas Gristnogol barhau, rhaid rhoi Duw'n flaenaf mewn bywyd a rhaid i'r ddau gymar ddilyn ei gyngor (Math. 22:36-40; Rhuf. 13:8-10)

Mae priodas fel rhaff ddwygaint—gyda'r ddau gymar yn cefnogi ei gilydd mewn undod—ond gall cariad at Dduw gryfhau'r briodas, fel petai Jehofah yn rhan ohoni (Preg. 4:9-12)

Gallwch ymddiried yng nghyngor Duw, gan ei fod yn adnabod ein gwneuthuriad corfforol ac emosiynol yn well nag unrhyw gynghorwr priodas ddynol (Salm. 103:14)

Bydd astudio'r Beibl, gweddio, ac addoli gyda'ch gilydd yn eich tynnu chi'n agosach at eich gilydd ac at Jehofah

GŴR SY'N ENNYN PARCH DWFN (*fy*-E tud. 31-4) (7 mun.)

Penodwyd y dyn gan Dduw yn benteulu cariadus (1 Cor. 11:3)

Mae penteuluaeth yn golygu ymarfer barn gytbwys seiliedig ar y Beibl, rhoi arweiniad mewn ffordd gariadus a charedig

Mae'n cynnwys gofalu am anghenion materol, ysbrydol, ac emosiynol y teulu, hefyd mae'n cynnwys trefnu adloniant ar gyfer y teulu

Mae'n hanfodol i wŷr arwain eu teuluoedd Cristnogol mewn pethau ysbrydol, ond yn aml iawn yn y byd, mae gwŷr yn esgeuluso eu cyfrifoldeb o arwain eu teuluoedd

Nid yw penteuluaeth Gristnogol yn caniatáu i ddyn fod yn deirant

Mae'r gŵr i ddilyn esiampl Crist (Darllenwch Eff. 5:25, 28, 29.)

Roedd Iesu'n fodlon rhoi ei fywyd er mwyn ei gynulleidfa, ei briodferch

Yn anhunanol rhoddodd eraill yn gyntaf (Rhuf. 15:1-3)

Roedd yn addfwyn ac yn ffynhonnell gorffwysra (Math. 11:29)

Mae'r gŵr Cristnogol i garu'i wraig fel ei gorff ei hun

Dydy dyn call dim yn casáu ei gorff ei hun nac yn greulon wrtho, ond yn hytrach mae'n diwallu ei anghenion

Nid yw gŵr i fod yn llym wrth ei wraig mewn gair na gweithred; ni ddylai ei bychanu hi (Col. 3:19)

GWRAIG SY'N CAEL EI CHARU'N ANNWYL (*fy*-E tud. 34-5) (6 mun.)

Mae'r Beibl yn dangos fod rhan y wraig mewn priodas yn un anrhydeddus, urddasol

Mae'r gŵr Cristnogol i roi "parch dyladwy" iddi (1 Ped. 3:7)

A hithau'n gymar 'cymwys,' nid yw'r wraig yn gaethferch neu'n berson isradd

Mae'r ffaith ei bod hi'n cydnabod egwyddor penteuluaeth yn hyrwyddo priodas lwyddiannus a hapus (Darllenwch Eff. 5:22-24.)

Gorchymyn dwyfol yw ymostyngiad cymharol, felly mae er lles dynol

Heb arweiniad, bydd anghytuno, dryswch, ac anhapusrwydd yn dilyn

Mae'r wraig yn dangos 'parch' at ei gŵr drwy gydweithredu ag ef, nid cystadlu (Darllenwch Eff. 5:33.)

Pan fydd y gŵr yn gwneud camgymeriad, ni fydd y wraig yn ei fychanu, ond fe fydd hi'n feddylgar "Ymgeledd," neu gymar, yw'r wraig Gristnogol, i weithio gyda'i gŵr (Diar. 31:10-31)

Gall gyfrannu llawer i wneud y cartref yn ddymunol a hapus

Dibynna ar ei gŵr i wneud penderfyniadau ac mae'n gweithio i wneud iddyn nhw lwyddo

MEITHRINWCH GARIAD DWFN YN EICH PRIODAS (*fy*-E tud. 27-31, 35-8) (4 mun.)

Dylai'r ddau gymar wisgo amdanynt gariad (Col. 3:12-14)

Fel y mae dillad yn amddiffyn y corff, felly mae cariad yn diogelu undod priodasol

Fel gall dillad hefyd ychwanegu at harddwch y sawl sy'n eu gwisgo, yn yr un modd gall cariad ychwanegu disgleirdeb at briodas, darpariaeth ryfeddol Duw

Edrychwch am ffyrdd i ddangos cariad at eich gilydd bob dydd

Rhowch amser bob dydd i sgwrsio gyda'ch gilydd

Gwrandewch yn astud ar eich gilydd

Dangoswch garedigrwydd yn gyson, hyd yn oed yn y pethau bach fel geiriau tyner, a thrwy ymddwyn yn annwyl

Bydd gwneud hynny yn cryfhau'r briodas, oherwydd "nid yw cariad yn darfod byth" (1 Cor. 13:4-8)

DEWISOL: TREFN Y BRIODAS CYN YR ADDUNEDAU (w52-E tud. 363) (2 fun.)

Y priodfab, y briodferch, a'r tystion i sefyll o flaen y gweinidog

Gofynnir i'r priodfab: "**A wyt ti, ____, ym mhresenoldeb Jehofah Dduw a'r tystion hyn, yn cymryd __ i fod yn wraig briod i ti, i'w charu a'i thrysori, yn unol â chyfraith Duw sydd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd ar gyfer gwŷr Cristnogol, cyhyd ag y byddwch fyw eich dau?"** (Y dyn yna yn ateb: "**Ydwyf.**")

Gofynnir i'r briodferch: "**A wyt ti, ____, ym mhresenoldeb Jehofah Dduw a'r tystion hyn, yn cymryd __ i fod yn ŵr priod i ti, i'w garu a'i drysori, a'i barchu yn unol â chyfraith Duw sydd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd ar gyfer gwraegdd Cristnogol, cyhyd ag y byddwch fyw eich dau?"** (Y ferch yna yn ateb: "**Ydwyf.**")

[Os oes rhywun yn rhoi'r ferch i'w phriodi, fe ddywed y gweinidog: "**Pwy sy'n rhoi'r ferch hon i'w phriodi i'r dyn hwn?"** Fe ddywed y tad neu berson arall: "**Myfi.**" Os nad oes neb yn rhoi'r ferch i'w phriodi, gellir hepgor hyn]

ADDUNEDAU PRIODAS (w84-E 4/15 tud. 14) (3 mun.)

Dylai'r gweinidog wahodd y cwmni priodasol i sefyll ac yna barhau gyda'r addunedau. Er mwyn cydymffurfio â chyfraith Cymru a Lloegr, fel hyn y dylai geiriad yr addunedau fod:

Y priodfab i ailadrodd ar ôl y gweinidog:

"Yr wyf yn hysbysu na wn i am unrhyw reswm cyfreithlon fel na ellir fy uno i (rhoi enw llawn y dyn) mewn priodas â (rhoi enw llawn y ferch)."

Y briodferch i ailadrodd ar ôl y gweinidog:

"Yr wyf yn hysbysu na wn i am unrhyw reswm cyfreithlon fel na ellir fy uno i (rhoi enw llawn y ferch) mewn priodas â (rhoi enw llawn y dyn)."

Gofynna'r gweinidog i'r priodfab ddweud hyn wrth ei briodferch ar ei ôl ef:

Yr wyf fi yn galw ar y personau hyn sydd yma'n bresennol i dystiolaethu fy mod i (rhoi enw llawn) yn dy gymryd di (rhoi enw llawn) yn wraig briod gyfreithlon i mi; i'th garu a'th drysori, yn unol â chyfraith Duw sydd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd, ar gyfer gwŷr Cristnogol, cyhyd ag y byddwn fyw ein dau ynghyd ar y ddaear, yn unol â threfn Duw ar gyfer priodas."

Gofynna'r gweinidog i'r briodferch ddweud hyn wrth y priodfab ar ei ôl ef:

Yr wyf fi yn galw ar y personau hyn sydd yma'n bresennol i dystiolaethu fy mod i (rhoi enw llawn) yn dy gymryd di (rhoi enw llawn) yn ŵr priod cyfreithlon i mi; i'th garu a'th drysori, a'th barchu yn unol â chyfraith Duw sydd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd, ar gyfer gwraegdd Cristnogol, cyhyd ag y byddwn fyw ein dau ynghyd ar y ddaear, yn unol â threfn Duw ar gyfer priodas."

[Os bydd cyfnewid modrwyau. Gellir gwahodd y priodfab nawr i roi modrwy am fys y briodferch, ac yna hithau ar ei fys yntau. Os dymuna, gall y gweinidog wneud y sylw hwn: "**Arwydd allanol a gweladwy yw'r fodrwy hon (neu'r modrwyau hyn) yn arwydd i bawb fod y dyn hwn a'r ferch hon wedi eu huno mewn rhwymau priodas.**"]

Yna bydd y gweinidog yn darllen y datganiad hwn:

"Yn gymaint ag i (rhoi enw llawn y dyn) a (rhoi enw llawn y ferch) gyfamodi o flaen Jehofah Dduw a'r tystion hyn i'w derbyn ei gilydd mewn priodas, rwyf i, a minnau'n weinidog ordeiniedig a thrwy'r awdurdod a roddir i mi gan yr Ysgrythurau Sanctaidd, ac ym mhresenoldeb person awdurdodedig, yn cyhoeddi eu bod yn ŵr a gwraig ynghyd. Yr hyn a gysylltodd Duw, ni ddylai neb ei wahanu."

(Os y gweinidog sy'n traddodi'r anerchiad yw'r person awdurdodedig yna dylid hepgor y gosodiad "ac ym mhresenoldeb person awdurdodedig.")

Dilynir gyda gweddi o fendith ar y cwpl priod newydd

Yna gall y siaradwr ddweud:

"Fy mhleser i yw cyflwyno i'r cynulliad priodasol hwn y Brawd a'r Chwaer ____."

[*Noder: Awgrym yw'r amlinelliad uchod ar gyfer anerchiad priodas. Mae agor yr anerchiad hwn gyda gweddi yn ddewisol.*

Gall unrhyw gwestiynau am fanylion pellach gael eu cyfeirio at y cofrestrydd arolygu lleol. Yn Yr Alban mae'r rheoliadau sy'n rheoli gweinyddu priodas a'r addunedau rhywfaint yn wahanol. Dylai gweinidogion sy'n traddodi'r anerchiad priodas wirio gyda'r cofrestrydd lleol ynglŷn â'r rheoliadau hyn.]